Patagonia – o'r diwedd!

Ar ôl blwyddyn o gynllunio a chodi arian roedd cychwyn ar daith yr Urdd a Mentrau Iaith Gogledd Cymru i'r Wladfa yn rhyddhad enfawr, ac ar ôl taith hir a blinedig roedd hi'n fwy o ryddhad fyth cyrraedd Patagonia! Ar ôl siwrnai bws o 5 awr i faes awyr Gatwick, hedfan i Fadrid o Gatwick, hedfan wedyn am ddeuddeg awr o Fadrid i Fuenos Aires, ac yn olaf hedfan o Fuenos Aires i Esquel, roedd pob un o'r criw o 23 yn deall pa mor bell oedd Patagonia o Gymru!

Ond ar ôl cyrraedd doedd neb yn cwyno. Er mai yn Esquel wnaethom ni lanio, yn Nhrevelin roeddem ni'n aros am yr wythnos gyntaf. Mae Trevelin yn y rhan orllewinol o Batagonia ac yng nghysgod rhai o fynyddoedd yr Andes. Roedd yr olygfa o hostel Casa Verde yn anhygoel. Yr Andes wedi eu gorchuddio ag eira a Chwm Hyfryd yn ddyffryn toreithiog yn ein hatgoffa o Gymru.

Rhaid diolch i Lois o Ddyffryn Clwyd - sy'n gweithio i Fenter Patagonia am gyfnod o 6 mis - am drefnu rhaglen o weithgareddau diddorol yn ystod yr wythnos gyntaf yn Esquel a Threvelin. Ar ein diwrnod cyntaf cawsom gyfle i ymweld ag Ysgol Gymraeg yr Andes a helpu gyda threfnu'r llyfrgell, tacluso'r ardd a darllen straeon i'r plant bach a oedd yn mynychu'r ysgol. Yna clamp o Swper Croesawu yn fferm y Greens a phawb wrth ei fodd gyda chig oen yr 'Asado'. Roedd canu mawr wrth y bwrdd a chafwyd dawnsio gwerin wedyn gyda phawb yn mwynhau. Gyda llaw bu Ifor Green yn gweithio yng Ngholeg Llysfasi rai blynyddoedd yn ôl.

Ar ôl mwynhau'r noson honno tipyn o sioc oedd gwneud y gwaith dyngarol y diwrnodau canlynol. Mae'n arferiad gan Gymdeithas Gymraeg ardal Esquel fynd â bwyd i Mi Casita, sef cartref plant, bob dydd Iau ac felly neidiodd y criw i'r adwy a dosbarthu bwyd i'r plant ar ran y Gymdeithas. Er eu tlodi truenus roeddent yn edrych yn blant hapus iawn gyda'u gofalwyr yn dangos cariad amlwg taug atynt. Er mai Sbaeneg a siaradai'r plant bach hyn, cafwyd sesiwn chwarae a chanu gyda phawb yn ymuno i ganu a gwneud symudiadau Pwy Wnaeth Y Sêr Uwchben.

Roedd nifer o'r criw yn dalentog iawn, yn enwedig yn gerddorol. Pobman yr aem roedd pawb yn cynnig i ni berfformio mewn cyngerdd. Sefydlwyd Côr y Daith - ac o feddwl mai dim ond 7 bachgen oedd yna a hanner ohonom ni heb fod mewn côr o'r blaen - roedd sŵn eithaf da yn cael ei gynhyrchu!! Roedd y cyngherddau yn ffordd wych o ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod ar derfyn yr ail wythnos, pryd y disgwylid perfformiad o safon gan griw o Gymry ifainc!

Cyn gadael Trevelin roedd yna gyfle i arddangos ein sgiliau pêl-droed i'r Archentwyr. Er yr anawsterau cyfathrebu rhwng tîm y Cymry a'r dyfarnwr, llwyddwyd i gael gêm gyfartal 2-2. Roedd un neu ddau o dîm y Cymry o'r farn bod y dyfarnwr yn ochri o blaid y tîm cartref.

Wedyn - ar ôl wythnos yn Nhrevelin ac Esquel - roedd rhaid cwblhau'r siwrnai naw awr mewn bws ar draws y paith! Cyrraedd y Gaiman yn y dwyrain yn gynnar bore Sadwrn ac mae'n anodd esbonio pa mor wahanol oedd y rhan hon o Batagonia i'r rhan orllewinol wrth droed yr Andes. Ond ar ôl teithio am naw awr roeddem bellach mwy neu lai ynghanol diffeithwch!! Roedd hi'n llawer cynhesach yma a dim bryn i'w weld am filltiroedd.

Ar ôl dadflino yn dilyn y daith bws aethom ar ymweliad i Borth Madryn, y man lle glaniodd y Cymry cyntaf yn ôl ym1865. Roedd yr amgueddfa yn wych a gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg. Ni wna yr un ohonom anghofio'r profiad o sefyll a gweld yr ogofau cyntaf y roedd y Cymry wedi'u creu a storio nwyddau ynddynt. Na'r profiad o weld morfil yn nofio yn braf yn nŵr yr Iwerydd!

Y diwrnod canlynol rhannwyd y grŵp yn ddau gydag un grŵp yn mynd i Ysgol y Gaiman a'r grŵp arall yn mynd i Ysgol Yr Hendre yn Nhrelew. Gwaith y ddau grŵp oedd peintio murlun ar wal a ddewisiwyd gan yr ysgol. Dydwi ddim yn dangos ffafriaeth o gwbl, ond murlun grŵp dau oedd y gorau – portread o Smot y Ci gyda'r gair Croeso uwch ei ben.

Gyda'r amser ym Mhatagonia yn dod i ben, trodd sylw y daith at yr Eisteddfod sy'n cael ei chynnal yn flynyddol yn Nhrelew. Roedd Casi Wyn wedi cael llwyfan ar ganu yn unigol, ac mi wnaeth hi ganu'n wych gan ennill dwy gystadleuaeth. Ond y Côr oedd yn bwysig - i'r bechgyn beth bynnag. Ar ôl clywed bod Côr Criw'r Daith y llynedd wedi cael ail, roeddem dan bwysau. Ond doedd dim achos i boeni - mi wnaeth Côr Gogledd Cymru gipio'r wobr gyntaf mewn un gystadleuaeth a'r ail wobr mewn cystadleuaeth arall.

Hoffwn ddiolch i Ela Evans, Elain Mair, Gethin Ceidiog Hughes, Gwenno Elis, Jac Williams, Meira Price a Robert Malcom Jones, y saith o Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Brynhyfryd, am eu hymroddiad i'r cynllun dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd taith ffantastig a fydd yn aros am byth yn y cof.

Gerallt Lyall